



CYNGOR CYMUNED Y FALI

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2025 / 2026

Ein gweledigaeth: Y Fali, lle mae unigolion a theuluoedd yn ffynnu, a lle mae pobl am fyw.



Er cof am y Cynghorydd Ken Taylor

1955 – 2026



Bu'r Cynghorydd Ken Taylor yn gwasanaethu Cyngor Cymuned Y Fali yn ymroddgar o fis Mehefin 2013 hyd ei farwolaeth ar 18 Mai 2026. Yn ystod ei flynyddoedd o wasanaeth, bu'n dal swyddi Is-gadeirydd a Chadeirydd, gan osod buddiannau'r gymuned wrth galon ei waith bob amser.

Yn eiriolwr brwd dros Y Fali ac yn gefnogwr balch i'r Gymraeg ac i fywyd cymunedol lleol, gadawodd ymroddiad, doethineb a hiwmor da Ken argraff parhaol ar ei gyd-gynghorwyr, ar drigolion ac ar bawb a gafodd y ffrind o weithio ochr yn ochr ag ef.

Mae Cyngor Cymuned Y Fali yn cofnodi ei ddiolch diffuant am ei ymroddiad i wasanaeth cyhoeddus, ac yn cyflwyno'r adroddiad hwn er cof amdano gyda pharch. Boed iddo orffwys mewn heddwdd, a boed i'w gyfraniad i'r gymuned gael ei gofio gyda gwerthfawrogiad parhaol.



Rhagair y Cadeirydd

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Y Fali ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

Blwyddyn o adeiladu oedd y llynedd; blwyddyn o ofalu am yr hyn a adeiladwyd gennym yw hon, ac o osod y Cyngor ei hun ar sail gadarnach ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Dechreuodd y flwyddyn yn dda. Ym mis Mai, agorwyd y cwrt pêl-fasged newydd ym Mharc Mwd yn swyddogol, cyfleuster sy'n bodoli am i ddau berson ifanc yn ein cymuned ofyn amdano. Mae hynny'n werth ei ddweud yn blaen: gwnaethoch chi ofyn, gwrandawsom ninnau, ac fe'i hadeiladwyd.

Ochr yn ochr â'r agoriad, lansiwyd arolwg cymunedol gennym, gan y dylai'r un egwyddor lywio popeth arall a wnawn. Ers hynny, mae disgyblion Ysgol Gymuned y Fali wedi cymryd rhan mewn arolwg eu hunain, a gynlluniwyd ar y cyd â'r Cyngor, a bydd yr hyn a ddywedwyd ganddynt wrthym, gan gynnwys nad yw rhai bob amser yn teimlo'n ddiogel ym Mharc Mwd, yn bwydo'n uniongyrchol i'r gwaith o adolygu Cynllun y Cyngor.

Mae Cyngor Cymuned Y Fali yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 2,326 o drigolion ar draws cymuned Y Fali, sy'n cynnwys pentref Y Fali, Llanynghenedl, rhannau o Bontrhydybont a'r ardaloedd gwledig cyfagos, yn ôl Cyfrifiad 2021.

Ein hymgymeriad mwyaf oedd yn Ynys Wen. Cwblhawyd y gwaith draenio ym mis Tachwedd ar gost gyfan o £32,100, wedi'i ariannu'n rhannol drwy fenthyciad gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac yn rhannol o gronfeydd wrth gefn, gyda gwaith adfer yn cael ei wneud yn y gwanwyn. Nid yw'n brosiect sy'n addas ar gyfer llun, ond roedd yn un angenrheidiol, ac rwy'n diolch i'r Cyng. Bill Rogerson MBE ac i bwyllgor Ynys Wen am ei weld drwodd, ynghyd â'r asesiad risg a'r gwaith ar y cerrig beddau a ddilynodd.

Cymerwyd cyfrifoldeb hefyd am y man chwarae ym Mharc Mwd, a sicrhawyd £10,000 tuag at ei wella, ynghyd â grant o'r Gronfa Atal Troseddau ar gyfer arwyddion newydd. Yn erbyn y cynnydd hwnnw y mae'r fandaliaeth barhaus yn y parc, sy'n dal i ddargyfeirio arian a ddylai gael ei wario ar wella tuag at atgyweirio yn lle hynny.

Rwy'n ddiolchgar i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lleol am eu presenoldeb cynyddol ac am y syrjeri heddlu a gynhaliwyd yn y Pafiliwn, ac i blant yr ysgol y mae eu dyluniadau eu hunain bellach i'w gweld ar yr arwyddion baw cŵn o amgylch y pentref.



Y cwrt pêl-fasged newydd ym Mharc Mwd, a agorwyd yn swyddogol ym mis Mai 2025.



Rhagair y Cadeirydd

parhad

Bu newidiadau sylweddol o fewn y Cyngor. Ym mis Medi, ffarwelwyd â'n Clerc, Mrs Rhianwen Sheldon, ar ôl dwy flynedd a hanner o wasanaeth diysgog, cyfnod pryd y newidiodd y ffordd y mae'r Cyngor hwn yn gweithredu er gwell yn sylweddol. Ym mis Medi, croesawyd Ms Anwen Jones yn Clerc ac yn Swyddog Ariannol Cyfrifol, a hoffwn gofnodi fy nioch am y ffordd bwylllog a thrylwyr y mae hi wedi ymgymryd â'r rôl.

Ymhlith llawer o bethau eraill, mae'r flwyddyn hon wedi dod ag adolygiad llawn o'n polisïau, Cynllun Bioamrywiaeth newydd, cynllun hyfforddi diweddaredig, ailwampio ein hoffer TG a chyfieithu, a gwaith monitro'r gyllideb yn chwarterol sy'n rhoi darlun llawer cliriach i'r aelodau o gyllid y Cyngor.

Croesawyd aelodau newydd i'r Cyngor hefyd a ffarwelwyd ag eraill, a diolchaf i bob cynghorydd am yr oriau y maent yn eu rhoi. Gwneir llawer iawn o waith y Cyngor hwn yn dawel, yn y cefndir ac yn ddi-dâl.

Hoffwn hefyd fynegi fy nioch diffuant i Gadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor, yn arbennig y Pwyllgor Cyllid a Phersonél, Pwyllgor Parc Mwd, a'r Pwyllgor Parciau ac Ynys Wen. Mae eu harweiniad, eu hymrwymiad a'u gwaith caled wedi bod yn amhrisiadwy wrth oruchwylio'r meysydd pwysig hyn ac wrth sicrhau bod cyfrifoldebau'r Cyngor yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Rwyf yr un mor ddiolchgar i holl aelodau'r pwyllgorau am yr amser, y wybodaeth a'r ymroddiad y maent wedi'u cyfrannu drwy gydol y flwyddyn.

Nid wyf am esgus bod y darlun ariannol yn un hawdd. Gostyngodd yr incwm claddu yn Ynys Wen yn sylweddol eleni, a gwnaeth costau heb eu cyllidebu, fandaliaeth yn bennaf yn eu plith, y flwyddyn yn un heriol i'w rheoli. Ar ôl craffu gofalus gan y Pwyllgor Cyllid a Phersonél, gosododd y Cyngor braesept o £68,100.79 ar gyfer 2026/27, cynnydd o 11.65%. Nid oes yr un cyngor yn gwneud penderfyniad o'r fath yn ysgafn, ac ni wnaethom hynny ond ar ôl archwilio pob pennawd gwariant ac adolygu pob ymrwymiad, gan gynnwys y maes parcio cyhoeddus am ddim yr ydym yn parhau i'w ariannu ar Ffordd yr Orsaf. Byddwn yn parhau i geisio cyllid grant lle bynnag y mae ar gael, fel bod y baich a gludir gan drigolion yn cael ei gadw mor isel ag y gall yn rhesymol fod.


Wrth edrych ymlaen, mae'r Gronfa Budd Cymunedol sy'n gysylltiedig â gwaith y Grid Cenedlaethol ym Mhenrhos yn gyfle gwirioneddol i'r Fali, a hoffwn annog pob trigolyn i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwnnw pan fydd yn agor. Bwriedir i'n trefniant gefeillio, sydd yn ei gamau cynnar o hyd, fod yn fuddsoddiad hirdymor yn ein pobl ifanc. A bydd yr ymgynghoriad cymunedol sydd ar y gweill bellach yn llywio set adnewyddedig o nodau ac amcanion, cynllun wedi'i seilio ar yr hyn y mae trigolion wedi dweud wrthym eu bod ei eisiau mewn gwirionedd.

Mae'n anrhydedd fawr cael cadeirio Cyngor sy'n gwasanaethu'r gymuned y cefais fy magu a'm haddysgu ynddi. Mae'r Fali wedi chwarae rhan bwysig yn fy mywyd, ac rwy'n parhau'n gwbl ymrwymedig i gefnogi ei thrigolion ac i ddiogelu cymeriad y gymuned.

Fel Cadeirydd, byddaf yn parhau i weithio gyda chyd-gynghorwyr, gyda'r Clerc a chyda sefydliadau lleol i wasanaethu pobl Y Fali, i wrando ar drigolion ac i wneud penderfyniadau cyfrifol. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ofalus, bod y Cyngor yn sicrhau gwerth am arian, a bod ein cyfleusterau a'n gwasanaethau lleol yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned.

Mae'n gyfrifoldeb nad wyf yn ei gymryd yn ysgafn, a byddaf yn parhau i wasanaethu gydag uniondeb ac ymroddiad.

Yn olaf, estynnaf fy nioch diffuant i staff a dysgwyr Ysgol Gymuned y Fali, i Glwb Pêl-droed Y Fali, i Grŵp Cymunedol Y Fali ac i Gynghrair Bro'r Llynnoedd, yn ogystal â'r nifer fawr o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i gefnogi sesiynau casglu sbwriel, diwrnodau plannu a gweithgareddau cymunedol eraill. Mae eu hymrwymiad, eu brwdfrydedd a'u hysbryd cymunedol yn helpu i wneud Y Fali y lle arbennig ydyw heddiw. Mae'r Cyngor hwn yn bodoli i'ch gwasanaethu chi, a byddwn yn parhau i wrando, i gydweithio ac i weithredu er budd gorau pawb sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymuned.



Y Cyng. Neil R Tuck, Cadeirydd, Cyngor Cymuned Y Fali



Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cyflwyno anrheg ffarwél i'r Clerc ymadawol, Rhianwen Sheldon.



Y Flwyddyn ar Gipolwg



13 o Gynghorwyr

yn gwasanaethu pedair ward



Praesept a dderbyniwyd

£60,995



£106,683

cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd yn 2025/26



£103,961

cyfanswm y gwariant yn 2025/26



£10,100

cyllid grant a sicrhawyd



£26,001

cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyffredinol



Parc Mwd

gwelliannau wedi'u cyflawni



Ynys Wen

prosiect draenio wedi'i gwblhau



Rac beiciau newydd

wedi'i osod ym maes parcio'r Fali



Arwyddion baw cŵn newydd

wedi'u gosod ar draws y pentref



Clerc newydd

wedi'i phenodi i'w rôl ym mis Medi 2025



£54,005 balans diwedd blwyddyn

mae'r Cyngor yn parhau'n ddiogel yn ariannol



Dysgwyr o Ysgol Gymuned y Fali wedi dylunio arwyddion ar gyfer Parc Mwd, yn annog perchnogion cŵn i lanhau ar ôl eu cŵn!



Y Cadeirydd yn derbyn siec gan SCCH Ashley Dacre, yn ariannu arwyddion newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rhagor o wybodaeth, cyfrifon llawn, cofnodion, polisïau a dogfennau archwilio:

www.valley-community-council.wales

Yn eich cynrychioli chi



Cynghorwyr yn cyflwyno anrheg ffarwél i'r Clerc ymadawol, Rhianwen Sheldon, i gydhabod ei gwasanaeth.

Mae Cyngor Cymuned Y Fali yn cynrychioli 4 ward o fewn y gymuned

- 13 o Gynghorwyr Cymuned yn cynrychioli pedair ward Gorad, Pentref, Gorllewin a Llanynghenedl, gan wasanaethu cymuned o oddeutu 2,326 o drigolion (Cyfrifiad 2021).
- Newidiodd yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn, gyda seddi gwag yn codi o bryd i'w gilydd. Rheolwyd y rhain drwy'r gweithdrefnau etholiad a chyfethol priodol, yn unol â gofynion statudol.
- Mae tri is-bwyllgor ac un gweithgor yn cefnogi gwaith y Cyngor, gan gwmpasu cyllid a phersonél, Parc Mwd, parciau a Mynwent Ynys Wen, ac maent yn adrodd eu hargymhellion i'r Cyngor Llawn.
- Mae'r Cyngor yn cyflogi un aelod o staff: Clerc y Cyngor, sydd hefyd yn gweithredu fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) ac yn cefnogi'r Cyngor yn ei weinyddiaeth, ei lywodraethu a'i reolaeth ariannol.

Arweinyddiaeth

Cadeirydd

Y Cyng. Neil Tuck

 chairman@valley-community-council.wales

Is-gadeirydd

Y Cyng. Gordon Browne MBE

Gweledigaeth a Chenhadaeth

Gweledigaeth

Y Fali, lle mae unigolion a theuluoedd yn ffynnu, a lle mae pobl am fyw.

Cenhadaeth

Ymgysylltu â'r gymuned a gwneud ein gorau glas dros bob trigolyn.

Am fanylion llawn yr aelodaeth, gweler y wefan
www.valley-community-council.wales

Cyflawniadau Allweddol 2025/26

Cefnogi trigolion, gwella mannau lleol, a chynrychioli eich llais.



Llywodraethu agored a thryloyw

Parhaodd y Cyngor i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, i gyhoeddi rhaglenni a chofnodion ar-lein ac i adolygu ei bolisiau llywodraethu allweddol.



Gwranddo ar y gymuned

Ymgysylltwyd â thrigolion drwy ymgynghoriadau, digwyddiadau cymunedol a gohebiaeth, gan godi pryderon lleol gyda sefydliadau partner.



Buddsoddi mewn mannau lleol

Cwblhawyd gwaith sylweddol i wella'r draenio ym Mynwent Ynys Wen, a pharhaodd y rhaglen o welliannau ym Mharc Mwd.



Gwella Mynwent Ynys Wen

Gwnaed gwaith adfer ar gerrig beddau yn dilyn asesiadau diogelwch, gosodwyd arwyddion gwell a pharhaodd y gwaith cynnal a chadw hirdymor.



Gwella Parc Mwd

Gosodwyd wyneb newydd, gatiau a pholion, ynghyd â gwaith ymarferol sy'n gwneud y safle'n fwy diogel ac yn fwy hygyrch i'r gymuned.



Cyfleusterau pêl-fasged newydd

Agorwyd y cwrt newydd ym Mharc Mwd yn ffurfiol ym mis Mai 2025, ac mae plant a phobl ifanc ar draws y pentref yn dal i'w fwynhau.



Buddsoddi mewn cyfleusterau chwarae

Sicrhawyd grant o £10,000 drwy'r Gronfa Gwella Mannau Chwarae, a'i ddefnyddio i wella ac atgyweirio offer chwarae lleol.



Diogelwch cymunedol

Bu'r Cyngor yn cydweithio'n agos â Heddlu Gogledd Cymru a'r SCCH lleol, gan godi pryderon ynghylch fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a pharcio.

YN FALCH O WASANAETHU CYMUNED Y FALI

Cyflawniadau Allweddol, parhad

Llywodraethu cadarn, partneriaethau cryf a chefnogaeth i fywyd lleol.



Gwell diogelwch ym Mharc Mwd

Sicrhawyd cymorth drwy gyllid atal troseddu, a'i fuddsoddi mewn teledu cylch cyfyng, arwyddion a gwell diogelwch yn y Pafiliwn.



Trosglwyddo staff yn esmwyth

Penodwyd Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd, gan sicrhau parhad gwasanaethau'r Cyngor drwy gydol y newid.



Cefnogi'r amgylchedd

Parhaodd y Cyngor â'i waith bioamrywiaeth a'i gyfrifoldebau amgylcheddol, gan gynnal a gwella manau gwyrdd cymunedol.



Cefnogi'r economi leol

Parhawyd i ddarparu a chynnal y maes parcio cymunedol am ddim yn Y Fali, gan gefnogi trigolion, ymwelwyr a busnesau lleol.



Cefnogi ein cymuned

Dyfarnwyd cyfanswm o £300 mewn rhoddion a grantiau i grwpiau lleol, i sefydliadau gwirfoddol ac i achosion elusennol yn ystod y flwyddyn.



Cryfhau llywodraethu

Adolygwyd a mabwysiadwyd polisiau a dogfennau llywodraethu allweddol, gan gryfhau rheolaethau ariannol, hyfforddiant a chydymffurfiaeth statudol.



Gwella cyfathrebu

Gwnaeth buddsoddiad parhaus yn y wefan ac mewn cyfathrebu cyhoeddus hysbysiadau, cofnodion a diweddariadau'n haws i drigolion gael atynt.



Gweithio mewn partneriaeth

Cynhaliwyd perthnasoedd gwaith cadarnhaol â Chyngor Sir Ynys Môn, â Heddlu Gogledd Cymru ac â grwpiau cymunedol lleol.

CYDWEITHIO I GYFLAWNI DROS Y FALI

Rhagor o'r Hyn a Gyflawnwyd

Gwaith ymarferol, traddodiadau lleol a gofal am y mannau a rannwn.



Cefnogi'r Gymraeg

Parhaodd y cyfathrebu, y dogfennau a'r cyfarfodydd dwyieithog, gyda buddsoddiad mewn offer cyfieithu fel y gall aelodau a thrigolion gymryd rhan yn y naill iaith neu'r llall.



Cefnogi traddodiad Nadolig Y Fali

Darparwyd cyfraniad o £100 tuag at goeden Nadolig y pentref yn 2025, gan helpu'r Grŵp Cymunedol i barhau'r traddodiad.



Cynnal offer achub bywyd

Parhaodd y gwaith o oruchwylio diffibriliwr Gorad, gan weithio gyda'i warcheidwaid i gadw'r cyfleuster ar gael ac wedi'i reoli'n briodol.



Cryfhau cysylltiadau â'r ysgol

Cynhaliwyd cynrychiolaeth uniongyrchol gan y Cyngor ar gorff llywodraethu Ysgol Gymuned y Fali, gyda chynrychiolydd newydd wedi'i benodi.



Cynnal a chadw cynlluniedig ar barciau a mannau chwarae

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu Atgyweirio a Gwella 2025/26, a chomisiynwyd arolygiadau RoSPA o Ffordd Spencer a Pharc Mwd.



Datblygu cynghorwyr a staff

Adolygwyd a chymeradwywyd Cynllun Hyfforddi'r Cyngor diweddaedig yn ffurfiol, gan gynnwys anghenion hyfforddi a chyllidebol y dyfodol.



Datblygu gwelliannau bioamrywiaeth

Ymwelodd Swyddog Bioamrywiaeth Un Llais Cymru â'r Fali ym mis Mawrth 2026, ac mae adroddiad bioamrywiaeth teirblyneddol y Cyngor wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi ar y wefan.



Cefnogi'r Cofio

Parhawyd i gefnogi gweithgareddau coffa blyneddol Y Fali, gan gynnwys gwasanaethau yn Eglwys Sant Mihangel, ym Mynwent Ynys Wen ac yn yr ysgol.



Gweithredu ar eiddo esgeuluedig

Codwyd pryderon am adeiladau anniogel ac esgeuluedig ar Ffordd yr Orsaf, lle mae'r Cyngor Sir wedi gweithredu o'r blaen i sicrhau bod eiddo'n ddiogel.



Gofalu am asedau cymunedol

Ailbeintiwyd meinciau'r Mileniwm a gwnaed gwaith atgyweirio ar y wal ym Mharc Mwd.



Cyfarfodydd hybrid

Parhawyd i gynnal cyfarfodydd ar sail amlleoliad, fel y gall aelodau a thrigolion ymuno naill ai'n bersonol neu ar-lein.

PROSIECTAU BACH, GWAHANIAETH GWIRIONEDDOL

Sut y bu inni reoli a buddsoddi eich arian



O BLE Y DAETH EIN CYLLID?

£60,995 Praesept y Cyngor

£10,100 Grantiau a chyllid allanol

£35,588 Incwm lleol (ffioedd a gwasanaethau)

SUT Y DEFNYDDIWDYD YR ARIAN?

- Cynnal parciau a mannau agored
- Gwelliannau ym Mynwent Ynys Wen
- Mentrau diogelwch cymunedol
- Gwasanaethau ac atgyweiriadau o ddydd i ddydd

£54,005

Balans banc diwedd blwyddyn

£26,001

Cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyffredinol

Rheolwyd y gwariant yn ofalus drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon wrth barhau i ddarparu gwasanaethau a gwelliannau allweddol i'r gymuned.

O ble y daeth ein hincwm o £106,683



Mae'r Cyngor yn parhau mewn sefyllfa ariannol gref a sefydlog wrth symud i 2026/27.

Cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Phersonél a'r gwaith monitro cyllideb:
www.valley-community-council.wales

Llywodraethu a Thryloywder



Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i bob cynghorydd ddilyn y Cod Ymddygiad, a chynigir hyfforddiant iddynt i gefnogi eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau mewn swydd gyhoeddus.



Cyhoeddi ar-lein

Cyhoeddir rhaglenni, cofnodion a pholisïau ar-lein, ewch i'n gwefan i'w gweld ar unrhyw adeg.



Cyfarfodydd cyhoeddus

Gwneir penderfyniadau'n agored mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd, yn bersonol neu ar-lein.



Goruchwyliaeth ariannol

Diweddarwyd y rheoliadau ariannol, gyda gwiriadau ac archwiliadau rheolaidd yn sicrhau bod arian yn cael ei reoli'n dda.



Hyfforddiant

Cynigir cyfleoedd hyfforddi i gynghorwyr ac i'r Clerc i'w cefnogi yn eu rolau.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd

Cynhaliwyd 29 o gyfarfodydd ffurfiol o'r Cyngor a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn.

Cyngor Cymuned

76%

Cyllid a Phersonél

90%

Parciau

85%

Mynwent Ynys Wen

90%



Cynghorwyr yn diolch i'r Padre Mike Hall am ei gyfraniad gwerthfawr i'r gymuned.



AGORED, ATEBOL AC YN GWEITHIO DROS EIN CYMUNED

Edrych Ymlaen at 2026/27

Ein Blaenoriaethau

-  Cynnal a gwella parciau a mannau agored
-  Parhau â'r gwaith ym Mynwent Ynys Wen
-  Buddsoddi ym Mharc Mwd ac mewn cyfleusterau cymunedol
-  Cynnal parcio am ddim yn y pentref i drigolion

Ffocws Ariannol

-  Cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27
-  Rheoli costau cynyddol a phwysau chwyddiant
-  Cynnal cronfeydd ariannol wrth gefn priodol
-  Ceisio cyllid allanol i gefnogi prosiectau

Cynllunio ar gyfer y tymor hwy

Cynnal a Chadw

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw hanfodol ar draws y cyfleusterau a'r mannau cyhoeddus sy'n eiddo i'r Cyngor, gan sicrhau eu bod yn aros yn ddiogel, yn hygyrch ac mewn cyflwr da i drigolion ac ymwelwyr.

Cyflawni

Byddwn yn parhau i sicrhau gwerth da i drigolion drwy ganolbwyntio adnoddau lle gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf, a thrwy sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn parhau'n effeithiol, yn ymatebol ac yn berthnasol i anghenion lleol.

Diogelu

Byddwn yn parhau i ddiogelu asedau'r Cyngor a mannau cymunedol drwy ymateb i fandaliaeth, gwella diogelwch lle bo angen, a sicrhau bod cyfleusterau'n aros yn ddiogel, yn groesawgar ac ar gael i bawb eu mwynhau.

Cynnal

Byddwn yn rheoli costau gwasanaeth a chostau gweithredu cynyddol yn gyfrifol, gan gydbwysu pwysau ariannol â'r angen i ddiogelu gwasanaethau hanfodol ac i gynnal rheolaeth ariannol gadarn.

Buddsoddi

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol ac mewn mannau cyhoeddus, gan wneud y defnydd gorau o'r grantiau a'r cyllid allanol sydd ar gael i gefnogi gwelliannau a datblygu hirdymor.

Ymgysylltu

Byddwn yn cryfhau ein hymgysylltiad â thrigolion, â sefydliadau lleol, â gwirfoddolwyr ac â phartneriaid cymunedol, gan annog mwy o gyfranogiad mewn prosiectau a chydweithio i wella'r Fali er budd y gymuned gyfan.

YMRWYMEDIG I DDYFODOL EIN CYMUNED



Manylion Cyswllt



Clerc

Anwen Jones



E-bost

clerk@valley-community-council.wales



Ffôn

07375 781090



Gwefan

www.valley-community-council.wales



Cyfeiriad

Cyngor Cymuned Y Fali, d/o 10 Gorffwysfa,
Lôn Fain, Dwyran, Ynys Môn, LL61 6YJ

Mae croeso i drigolion fynychu cyfarfodydd y Cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd, yn bersonol neu ar-lein, a rhoddir cyfle rhesymol iddynt wneud sylwadau am unrhyw fusnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod. Mae croeso i drigolion hefyd anfon pryderon at y Clerc.

Mae dyddiadau cyfarfodydd, rhaglenni a diweddariadau ar gael ar ein gwefan.

Cymeradwywyd a mabwysiadwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn gan Gyngor Cymuned Y Fali ar 16 Medi 2026 (Cyfeirnod Cofnod: 107/2627).